PWYLLGOR ARCHWILIO

DYDD LLUN, 27 MEHEFIN 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Ian Arundale(Caedeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Professor Maurice Pendlebury, Hugh Thomas, Howells, McGarry, Mitchell, Murphy, Weaver a/ac Walker |

1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Kelloway.

1 : PENODI CADEIRYDD

PENDERFYNWYD – bod Ian Arundale yn cael ei benodi fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2016/17 a phenodwyr yr Athro Maurice Pendlebury yn Ddirprwy Gadeirydd.

3 : DATGAN BUDDIANNAU

4 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2016 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

Swyddfa Archwilio Cymru
5 : SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Cyflwynodd Chris Pugh o Swyddfa Archwilio Cymru'r Llythyr Rhaglen Reoliadol ar gyfer 2016/17. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai SAC yn cynnal tri adolygiad thematig yn y Cyngor yn ystod 2016/17, sef Trawsnewidiad, Llywodraethu a Gwydnwch Ariannol. Mae'r adolygiadau thematig yn cael eu cynnal ym mhob Cyngor yng Nghymru. Bydd SAC hefyd yn gwneud gwaith lleol sy'n seiliedig ar risgiau a fydd yn canolbwyntio ar sut mae'r Cyngor yn dangos sut mae'n mynd i'r afael â'r argymhellion ar gynnig ar gyfer gwelliannau sydd yn Adroddiad Dilynol Asesiad Corfforaethol SAC. Yn olaf, bydd SAC yn cynnal archwiliad cynllun gwella ac yn archwilio sut y asesir perfformiad fel sydd wedi digwydd mewn blynyddoedd blaenorol.

Nododd y Pwyllgor ffioedd gwaith archwilio perfformiad SAC ar gyfer 2016/17.

PENDERFYNWYD – nodi Llythyr Rhaglen Reoliadol Caerdydd ar gyfer 2016/17.

Cyllid
6 : CYLLID

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi diweddariad ar sefyllfa alldro ariannol y Cyngor ar gyfer 2015/16 ac amlinelliad o waith sy'n cael ei wneud i baratoi ar gyfer cyllideb 2017/18. Nodwyd crynodeb byr o'r sefyllfa a'r prif faterion yn yr adroddiad. Dywedwyd wrth yr Aelodau y dywedwyd wrth y Cabinet am y sefyllfa alldro ar 16 Mehefin 2016.

Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau fod y sefyllfa alldro refeniw yn dangos £1.696 miliwn dros ben ar ôl cyfraniadau i ac o arian wrth gefn, o'i gymharu â £988k dros ben ym mis 9. Dangosodd y gwelliant welliant yn sefyllfaoedd cyfarwyddiaethau ar ddiwedd y flwyddyn, mwy o arian dros ben o ran Treth Gyngor a chynnydd mewn ad-daliadau ad-drethi annomestig ar ôl apeliadau llwyddiannus i'r Asiantaeth Werthuso.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r pwysau ariannol sy'n parhau a nodir ym mharagraff yr adroddiad, yn enwedig y rhai hynny yng Ngwasanaethau Cymdeithasol, Rheoli Corfforaethol, Gweithrediadau'r Ddinas a Datblygu Economaidd. Trafododd y Pwyllgor y gorwariant o £5.022 miliwn yng Ngwasanaethau Cymdeithasol. Gofynnodd yr Aelodau a oes pryderon gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau am orwariant arall yng Nghyfarwyddiaeth Wasanaethau Cymdeithasol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei bod hi'n cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd yr Arweinydd hefyd yn dwyn y Cabinet i gyfrif.

Ceisiodd y Cadeirydd eglurhad ar yr arian sy'n cael ei orwario yng Ngwasanaethau Cymdeithasol a gofynnod a yw hyn o ganlyniad i fethu â rheoli neu fethu â gosod a phroffilio'r gyllideb yn gywir. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau fod y gorwariant yn cyfeirio at arbed arian wedi'i gyllidebu'n rhy hwyr. Roedd rheolwyr yn y Gyfarwyddiaeth yn gweithio i fynd i'r afael â'r mater a chyflawni'r arbedion. Gofynnodd y Cadeirydd fod sefyllfa'r Pwyllgor yn cael ei nodi a dywedodd y byddai'n croesawu eglurhad pellach ar y mater hwn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol mai £2.027 oedd y costau dileu swyddi yn ystod y flwyddyn y mae £1.018 miliwn ohono yn ymwneud â staff ysgol. Cyfalafwyd y costau dileu swyddi statudol yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth u Cymru, gan adael £399k i gael ei ariannu gan y Gronfa Gyffredinol trwy'r gyllideb ddiswyddo gwirfoddolo. Oherwydd y lefel isel o gostau dileu swyddi yn ystod y flwyddyn, gellid ad-dalu £4.377 miliwn i arian wrth gefn wedi'i glustnodi i wrthbwyso symiau wedi'u benthyca'n flaenorol.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi y bydd cynnydd yn arian wrth gefn y Cyngor wedi'i glustnodi o ganlyniad i'r sefyllfa alldro yn helpu i wella gwydnwch ariannol cyffredinol y Cyngor. Yn ogystal, bydd yr adnoddau ar gael i helpu i ariannu buddsoddiadau un tro i gefnogi trawsnewid y gwasanaeth.

Dangosodd Alldro'r Rhaglen Gyfalaf amrywiant o £35.631 miliwn y mae £33.631 miliwn ohono'n llithrant.

Gofynnodd y Pwyllgor a gaiff y gyllideb gyfwng o £4 miliwn ei chario ymlaen. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y £4 miliwn yng nghyllideb 2017/18 ac ar ben swm o £4 miliwn ar gyfer y mecanwaith gwydnwch ariannol, a amddiffynnir yn y gyllideb sylfaenol.

PENDERFYNWYD –

1. bod y Pwyllgor yn nodi sefyllfa alldro'r Cyngor o ran y gyllideb derfynol ar gyfer 2015/16 a'r gwaith i gael ei wneud mewn perthynas â'r strategaeth gyllideb ar gyfer 2017/18;
2. y byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad o'r sefyllfa ynglŷn ag arian sy'n cael ei orwario'n barhaol yng Nghyfarwyddiaeth Wasanaeth Cymdeithasol.

## 7 : DATGANIAD CYFRIFON DRAFFT / DATGANIAD LLYWODRAETHIANT BLYNYDDOL 2015/16

Cyflwynodd Rob Green ac Anil Hirani adroddiad yn nodi'r Datganiad Cyfrifon drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015/16. Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor sylwi ar Ddatganiad Cyfrifon 2015/16 cyn i'r cyfrifon gael eu cyflwyno ar gyfer archwiliad allanol.

Cytunodd yr Aelodau y cyfeiriwyd at y pryderon a godwyd gan y Pwyllgor yn y Datganiad Cyfrifon, ac mewn modd mwy manwl na blynyddoedd blaenorol. Nodwyd nad oedd yr adroddiad yn cynnwys gweddillion ysgolion unigol. Dywedodd Swyddogion y dilëwyd y gweddillion ysgolion unigol mewn ymgais i dacluso'r Datganiad Cyfrifon, ond mae'r wybodaeth hon dal ar gael ac wedi'i nodi yn Fforwm Cyllideb Ysgolion. Cytunodd Swyddogion i gynnwys cyfeiriad at y data hwn yn y drafft terfynol, gan fod y data ar gael yn gyhoeddus.

Nododd yr Aelodau fod gwerth yr asedau a gedwir gan yr awdurdod wedi gostwng gan £143 miliwn. Credodd yr Aelodau fod y rhain yn symiau mawr ac arwydd o faint ac y dylid cynnwys rhesymau dros yr adbrisiad yn y drafft terfynol. Cytunodd Swyddogion i gynnwys y wybodaeth hon a'r esboniad o'r rhesymeg a'r tybiadau a ddefnyddiwyd yn ailadroddiad nesaf y Datganiad Cyfrifon.

Mae Tudalen 34 o'r Datganiad Cyfrifon yn rhestru Treth Gyngor o £144.062 miliwn. Ond, mae cyfrif incwm a gwariant cynhwysfawr yn rhoi ffigur o £173 miliwn. Gofynnodd yr Aelodau pam bod gwahaniaeth o dros £29 miliwn. Dywedodd Swyddogion fod archebiannau, trethi a symiau bach o arian dros ben sy'n ffurfio'r gwahaniaeth. Cytunwyd y byddai'r swyddogion yn adolygu'r ffigurau hyn a nodi'r gwahaniaeth yn y drafft terfynol.

Trafododd y Pwyllgor yr asedau amodol a restrir ar Dudalen 123 y Datganiad Cyfrifon. Dywedodd Aelod y dangoswyd benthyciad £1.9 i CDC Morgannwg fel ased ond ni ddylai ymddangos fel ei bod wedi'i restru fel arian cyfwng. Dywedodd swyddogion nad oes llinell yn y cyfrifon ynglŷn â'r swm hwn, ond, fe'i adlewyrchir yn y naratif a gallai fod yn ased pe bai CDC Morgannwg yn clirio'r benthyciad. Credodd Aelodau'r Pwyllgor fod hyn yn gamarweiniol. Cytunodd swyddogion i adolygu'r wybodaeth hon a gwneud datganiad clir. Gofynnodd Aelodau fod y geiriau'n adlewyrchu'r sefyllfa go iawn.

Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau fod buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn wedi perfformio'n llai ffafriol nag mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd y cynnydd 15% mewn ffioedd rheoli yn ymwneud â pherfformiad da mewn

blynyddoedd blaenorol  Dywedwyd wrth yr Aelodau fod newidiadau i Gronfa Bensiwn y Lywodraeth Leol yn golygu bod yn rhaid i bob cynllun pensiwn creu pwl o'u hasedau a lleihau y swm ar werir ar ffioedd rheoli.   Roedd 8 cronfa yn y DU cyfan, 1 gronfa ar gyfer cynlluniau pensiwn Cymru.    Mae cynllun Pensiwn Cymru wedi cwblhau ymarfer caffael cydweithredol ar gyfer mandad buddsoddi goddefol ac arweiniodd at arbed £2.1 miliwn ledled Cymru - £230,000 wedi'i arbed ar gyfer Caerdydd.  Derbyniodd y Pwyllgor gynnig gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau i ddod ag adroddiad ar y datblygiadau hyn i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Gofynnodd yr Aelodau a yw'r incwm ychwanegol a dderbyniwyd gan Dramgwyddau Traffig sy'n Symud o ganlyniad i ymgais bwriadol i godi incwm.   Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau bod incwm ychwanegol gan Dramgwyddau Traffig sy'n Symud wedi'i ddiogelu ar gyfer gwella rheoli traffig.  Defnyddir yr holl arian gan hysbysiadau cosb i dalu'r gost o ddarparu'r gwasanaeth – gyda balans dros ben o £370,000.

Gofynnodd y Pwyllgor a ddylid enwi cyflogeion â chyflogau dros £170,000 yn yr Adroddiad Blynyddol.   Dywedodd yr Aelodau fod swyddi yn y Uwch Dîm Rheoli wedi'u rhestru.   Ond, nid oedd un Aelod o staff a oedd yn rhan o'r braced hwn yn rhan o'r Uwch Dîm Rheoli ac felly ni ddatgelwyd y swydd.   Cytunodd swyddogion i roi eglurhad ar y swydd dan sylw.

Cadarnhaodd swyddogion fod y £1.7 miliwn mewn anfonebau cyfalaf yn ymwneud â'r cynllun 'Hawl i Brynu'.

Croesawodd yr Aelodau newidiadau i reoliadau caffael a monitro, yn benodol y rhai hynny sy'n ymwneud â chontractau atgyweirio tai.  Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau y bydd yr Uned Fasnacheiddio newydd yn goruchwylio'r fframwaith ar gyfer y contractau hynny.  Bydd lansiad yr ail ailadroddiad o'r contract yn cynnwys gweithdai ar gyfer y holl Aelodau.  Gwahoddwyd Aelodau y Pwyllgor i gymryd rhan yn y rhain.  Roedd yr Aelodau yn fodlon ar gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a ni awgrymwyd dim diwygiadau.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn:

1. nodi, yn amodol ar y sylwadau a dderbynnir ynghylch y Datganiad Cyfrifon drafft ar gyfer 2015/16 fel y nodir uchod, fod y Cyfrifon hyn i gael eu llofnodi gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a'u cyflwyno ar gyfer archwiliad allanol a chyhoeddus.

2. nodi y caiff y Datganiadau Cyfrifon wedi'u Harchwilio ar gyfer 2015/16 eu hadolygu gan y Pwyllgor hwn ym mis Medi 2016, cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Cyngor;

3. Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau yn cyflwyno adroddiad ar newidiadau i drefniadau rheoli ar gyfer Cronfeydd Pensiwn Cymru yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

8 : GWYDNWCH ARIANNOL

Derbyniodd Pwyllgor adroddiad yn rhoi gwybod i'r Aelodau am yr asesiad a gafodd ei gynnal gan swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru o ran gwydnwch ariannol yr awdurdod. Cynhelir yr asesiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Mai a mis Hydref 2015 a thrafododd materion a amlygwyd yn 2014/15. Canolbwyntiodd y gwaith ar gyflawni'r cynllun arbedion 2014/15 a chyfnod cynllunio ariannol 2015/16.

Ystyriodd yr adroddiad a yw trefniadau cymorth effeithiol ar waith o ran cynllunio ariannol, rheoli ariannol a llywodraethu ariannol. Mae'r asesiad llawn yn yr adroddiad dan Atodlen A. Cynhwysodd yr asesiad pedwar argymhelliad. Mae ymateb y Cyngor i'r argymhellion yn adroddiad dan Atodlen B.

Croesawodd y Cadeirydd Janet McNicholas a Chris Pugh o Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod. Gofynnodd yr Aelodau a oedd gan Ms McNicholas unrhyw bryderon am ddefnyddio arian wrth gefn. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oedd pryderon gan SAC gan fod y defnydd o arian wrth gefn wedi'i gynllunio. Nid yw arian wrth gefn yn cael ei ddefnyddio fel mesur 'stopio bwlch', ond yn rhan o'r broses cynllunio ariannol.

Gan gyfeirio at adroddiad asesiad SAC, paragraff 19, gofynnodd yr Aelodau pa gynlluniau cyflawni cyfarwyddiaethau nad ydynt yn cysylltu â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Ymrwymodd Chris Pugh i roi'r wybodaeth hon. Gofynnwyd bod y wybodaeth yn cael ei chylchredeg i'r holl Aelodau o'r Pwyllgor trwy e-bost.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi'r asesiad a wnaethpwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru o ran gwydnwch ariannol, ac ymateb y Cyngor.

2. Bod Chris Pugh yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau o ran pa gynlluniau cyflawni cyfarwyddiaethau nad ydynt yn cysylltu â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.
3. Bod y wybodaeth yn cael ei chylchredeg i'r holl Aelodau o'r Pwyllgor trwy e-bost.

9 : TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIAETH

Derbyniodd y Pwyllgor y Dystysgrif Cydymffurfiaeth a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru o ran Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2016/17. Penderfynodd Archwilydd Cyffredinol Cymru fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau dan Adran 15(6) i (9) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth leol yn ddigonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.

PENDERFYNWYD - bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad.

Llywodraethu a Rheoli Risg
10 : ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO 2015/16

Derbyniodd yr Aelodau adroddiad a gofynnwyd iddynt ystyried cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2015/16 fel cofnod o weithgareddau a barn y Pwyllgor Archwilio ar gyfer y flwyddyn ariannol.  Paratowyd yr adroddiad ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor trwy'r flwyddyn ac wedi ystyried yr Adroddiad Blynyddol drafft yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 22 Mawrth 2016.

PENDERFYNWYD – bod Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2015/16 yn cael ei ystyried gan y Cyngor.

## 11 : COFRESTR RISG CORFFORAETHOL (DIWEDD BLWYDDYN)

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau adroddiad a baratowyd er mwyn dwyn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol (CRC) at sylw'r Pwyllgor Archwilio, fel mae'r Aelodau yn cael cyfle i ystyried y risgiau strategol sy'n wynebu'r Cyngor.   Mae'r CRC yn nodi'r prif risgiau fel y gall yr Aelodau ac Uwch Swyddogion wneud penderfyniadau cytbwys a blaenoriaethau camau.  Derbyniwyd y CRC diwethaf gan y Pwyllgor Archwilio ar 30 Tachwedd 2015. Y bwriad yw dwyn y CRC at sylw'r Pwyllgor Archwilio.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y CRC yn cynnwys 24 o risgiau a aseinir i aelodau'r Uwch Dîm Rheoli i sicrhau perchenogaeth ac atebolrwydd.   Mae pob risg wedi'i adolygu a'i ddiweddaru gan y perchennog risg perthnasol i adlewyrchu'r sefyllfa ddiwedd blwyddyn.

Trafododd y Pwyllgor nifer o risgiau a nodwyd yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau fod modd cymharu'r nifer o risgiau wedi'u sgorio'n 'uchel' gyda Dinasoedd Craidd eraill.  Mae ymarfer wedi'i gwblhau i gymharu cyfansoddiad y gofrestr risgiau corfforaethol gyda rhai Dinasoedd Craidd y DU.  Rhoddodd yr ymarfer hwn sicrwydd bod y risgiau sy'n cael eu rheoli, eu monitro a'u hadrodd trwy ein Cofrestr Risgiau Corfforaethol wedi'u halinio'n agos gyda'r rhai hynny a adroddwyd gan Ddinasoedd Craidd eraill y DU.  Cadarnhawyd nad yw'r nifer a sgoriwyd yn 'uchel' yn fwy na sgoriau blaenorol.

PENDERFYNWYD- nodi cynnwys y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

## 12 : ADOLYGIAD DATGANIAD SICRWYDD UWCH REOLWYR - ADBORTH

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a rodd grynodeb i'r Aelodau o Ddatganiadau Sicrwydd yr Uwch Reolwyr wedi'u dychwelyd ar gyfer y cyfnod ariannol 2015/16. Nododd y Pwyllgor yr ymatebion cadarnhaol a dderbyniwyd a'r lefel mwy o ymgysylltiad.    Yn ogystal, sylwodd y Cadeirydd ar ran y Prif Weithredwr yn y broses trwy gyflwyno Datganiad Sicrwydd y Prif Weithredwr.

Cododd y Pwyllgor nifer o bryderon am ymateb i gyfarwyddiaeth i reoli risgiau. Dywedodd swyddogion bod y Datganiadau Sicrwydd yr Uwch Reolwyr yn adlewyrchu mwy o ymgysylltu ac asesiad mwy cadarn. Yn ogystal, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod hyfforddiant wedi'i roi i Dîm Rheoli Gweithrediadau'r Ddinas o ganlyniad i'w ymateb Datganiadau Sicrwydd yr Uwch Reolwyr. Cydnabuwyd a derbyniwyd bod angen gwneud mwy o waith i fynd i'r afael â gwendidau rheoli risgiau y gyfarwyddiaeth, gyda gwaith parhaol.

PENDERFYNWYD – bod y Pwyllgor yn nodi'r crynodeb o ymatebion a dderbyniwyd.

Rheoli'r Trysorlys
13 : ADRODDIAD AR BERFFORMIAD

*Roedd yr Atodlen 1 ac Atodlen 2 yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cytunwyd y câi'r cyhoedd eu heithrio drwy gydol y drafodaeth ar yr eitem busnes hon ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y trafodaethau, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym Mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a rodd gwybodaeth am berfformiad Rheoli'r Trysorlys a datganiadau sefyllfa ar 31 Mawrth a 31 Mai 2016. Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol – Cyfalaf a Thrysorlys yr adroddiad.

*31 Mawrth 2016*

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau mai £58 miliwn oedd buddsoddiadau sy'n dod o weddillion dros dro. £666.1 miliwn oedd y swm a fenthycwyd yn allanol sy'n cynnwys benthyca ychwanegol yn ystod y flwyddyn i wneud Setliad Diwygio Cymhorthdal Tai £187 miliwn i Lywodraeth Cymru.

*31 Mai 2016*

Ar 31 Mai 2016 £84 miliwn oedd swm buddsoddiadau. Ni newidiodd y swm benthyca allanol o £666.1 miliwn. £32.8 miliwn oedd swm cyfan y llog ar fenthyca fel y cyllidwyd yn y lle cyntaf.

Dywedodd swyddogion bod PWLB yn parhau i gynnig y cyfraddau mwyaf ffafriol ar gyfer cynlluniau penodol. Nid oedd yn bolisi i geisio ad-daliad hirdymor ar gyfer yr holl fenthyca. Roedd y tymor yn ddibynnol iawn ar y proffil. Caniateir benthyca cyn gwariant cyfalaf o hyd at 3 blynedd.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

Archwiliad Mewnol
14 : ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIAD MEWNOL 2016/17

*Roedd Atodlen B yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cytunwyd y câi'r cyhoedd eu heithrio drwy gydol y drafodaeth ar yr eitem busnes hon ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y trafodaethau, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym Mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

Cyflwynodd yr Archwilydd Grŵp Adroddiad Cynnydd Archwiliad Mewnol 2016/17. Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad i Aelodau'r Pwyllgor ar waith yr Archwiliad Mewnol hyd at 31 Mai 2016.

Credodd yr Aelodau y byddai o gymorth adrodd yr argymhellion o'r archwiliad a gynhaliwyd i'r Pwyllgor.  Ymrwymodd Swyddog i roi mwy o fanylion am yr argymhellion wedi'u cario drosodd ar gyfer gwelliant yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

15 : ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIAD MEWNOL 2015/16

*Roedd Atodlen c ac Atodlen D yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.  Cytunwyd y câi'r cyhoedd eu heithrio drwy gydol y drafodaeth ar yr eitem busnes hon ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y trafodaethau, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym Mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Cynnydd Archwiliad Mewnol 2015/16. Rhoddodd yr adroddiad drosolwg o'r dull wedi'i fabwysiadu i archwilio tasgau ac fe'i manylodd ar y gwaith a gafodd ei wneud gan dimau archwilio amrywiol yn ystod y 12 mis blaenorol.

Cytunodd swyddogion i ail-eirio paragraff 2.5 ynghylch bryderon rheoli contractau a chroesgyfeirio'r pryderon hynny a nodwyd yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio.  Ar ben hynny, awgrymodd yr Aelodau y gellid rhoi cyd-destun i ddata ymchwilio ar ddiswyddiadau a chofrestriadau e.e. cymhariaeth â ffigur y flwyddyn flaenorol.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

16 : CYNLLUN ARCHWILIAD MEWNOL 2016-17

*Roedd Atodlen A yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cytunwyd y câi'r cyhoedd eu heithrio drwy gydol y drafodaeth ar yr eitem busnes hon ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y trafodaethau, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth wedi'i heithrio am y disgrifiad ym Mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

Yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2016, cyflwynwyd Strategaeth Archwilio Mewnol 2016/17 i'r Pwyllgor oedd yn cynnwys gwybodaeth gefndir am y Cynllun Archwilio ar gyfer y flwyddyn.  Gofynnodd yr Aelodau am Gynllun Archwilio mwy manwl gan ddechrau ar 1 Ebrill 2016. Atodwyd y cynllun i'r adroddiad dan Atodlen A.

O ran y projectau ADM, gofynnwyd yr Aelodau fod digon o amser yn cael ei gadw yn y Cynllun Archwilio i roi sicrwydd bod targedau ADM yn cael eu bodloni.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

17 : RHAGLEN WAITH

PENDERFYNWYD – nodi Rhaglen Waith 2016/17 y Pwyllgor Archwilio.

18 : MATERION BRYS

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd busnes brys i'w ystyried.

19 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 19 Medi 2016.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 pm